CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 10 Hydref Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Cymuned y Betws yn Festri Capel Newydd, y Betws ar ddydd Mercher y 14eg o Hydref 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), Henadur Arnallt James, Y Cynghorwyr Loreen Lewis, June Gunter, Anthony Richards, Anne Sizmur, Catherine Smith, Menna Roberts, Richard Howell, Maldwyn John ac Annette Price.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwr Carwyn James a'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 16eg O FEDI 2009.
Roedd gan y Cynghorwr Anne Sizmur y newidiadau canlynol i wneud:-
2.1 Dywedodd y Cynghorwr Maldwyn John fod top bwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned i weld yn beryglus. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda'r cwmni oedd wedi cyflenwi bwrdd hysbysu.
4.1 Mae'r Cynghorwyr am gael cynlluniau ddiwedda'r o'r prosiect ar Safle Gwaith Glo'r Betws, maen nhw hefyd am gael copi o amodau o'r cais cynllunio ailgylchu wrth Mr Hugh Towns o Gyngor Sir Caerfyrddin.
4.3 Nid oedd y Cynghorwyr wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio, roeddynt am fwy o wybodaeth.
4.5 Roedd y cais cynllunio blaenorol wedi dod i ben ym mis Mai 2008.
11.1 Grwp Lleol o Gynghorau Rhydaman oedd wedi gwahodd yr Eisteddfod i Ddyffryn Aman ac nid Cyngor Dref Rhydaman.
Roedd gan y Cynghorwr Arnallt James y newidiad canlynol i wneud:-
8. Y Cynghorwr Carwyn James ac nid y Cynghorwr Catherine Smith oedd yn mynd i roi bylbiau yng nghafnau'r blodau.
Roedd gan y Cynghorwr Catherine Smith y newidiad canlynol i wneud:-
10. Penderfynwyd taw'r Clerc ac nid y Cynghorwr Catherine Smith oedd yn mynd i gael prisiau wrth gwmnïoedd bysiau.

Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Catherine Smith fod cofnodion cyfarfod y 16eg o Fedi 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price ddelai fod golau uwch ben y bwrdd hysbysu. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Maldwyn John mae eisiau braced/clicied arall ar ben y bwrdd oherwydd mae'n i weld yn beryglus. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Atech Arwyddion a Graffig .

Dywedodd y Clerc dim ond un allwedd sydd gen i am y bwrdd hysbysu. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur fydd hi'n gwneud ymholiadau gydag Ysgol Gynradd y Betws i weld os oes allwedd ganddyn nhw.

Dywedodd y Cynghorwr Richard Howell mae eisiau i'r Cynghorwyr trefnu dydd ac amser addas i gael eu lluniau wedi ei thynnu ger bwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i gael eu llun wedi tynnu ar ddydd Llun y 24ain o Hydref am 3yp.

2.2 Tyrbinau Gwynt.
Dywedodd y Cynghorwyr Annette Price ac Anthony Richards fod nhw wedi bod yn bresennol yn cyfarfod gyda Chyngor Cymuned Llanfihangel, a oedd wedi dweud wrthynt eu bod nhw wedi rhoi arian mewn i gronfa ymddiriedolaeth fel ar ôl 25 blynedd fydd arian ar gael i symud y tyrbinau gwynt os fydd y cwmni wedi gorffen. Roedd y Cynghorwyr Annette Price ac Anthony Richards wedi rhoi adroddiad manwl i'r Cynghorwyr. Roedd y Cynghorwr Annette Price am wneud yn siwr fod unrhyw arian a fu'n dod wrth y Tyrbinau Gwynt dim ond yn dod i Ward y Betws. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Annette Price ddelai'r Cynghorwr Sir trial diogelu'r arian i Fetws.

Dywedodd y Cynghorwr Catherine Smith wrth y Cynghorwyr fod comisiwn wedi cael ei sefydlu, ac os yw cais cynllunio dros faint diau, ni fydd eisiau caniatâd cynllunio.

Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth ECO2 hyd yn hyn. PENDERFYNWYD fod y Clerc yn erlid y mater hwn. Roedd y Cynghorwr Annette Price yn pryderu oherwydd delai pwyllgor cael ei sefydlu fel y gallant ddiogelu'r arian am Ward y Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin i wneud yn siwr fod unrhyw arian a fu'n dod wrth y Tyrbinau Gwynt dim ond yn dod i Ward y Betws.

2.3 Llwybrau Troed.
Roedd y Cynghorwyr Richard Howell, Catherine Smith, Arnallt James, Loreen Lewis, Menna Roberts ac Annette Price wedi bod yn bresennol yn cyfarfod ar y 13eg o fis Hydref gyda Choedwigwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin. Rhoddodd y Cynghorwyr Arnallt James adroddiad manwl i'r cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Arnallt James i gael cyfarfod gyda Gary Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin, ynglyn â llwybrau troed ar Safle Gwaith Glo Hen y Betws. Cytunwyd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda Gary Carlsen.

Hefyd dywedodd y Cynghorwr Arnallt James wrth y Cynghorwyr fod llwybr troed 3/16 Glyncywarch i Gwm Rhyd yr Erin wedi cael ei gorchuddio gyda gwastraff gwaith glo. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn dweud wrth Gary Carlsen.

Hefyd dywedodd y Cynghorwr Arnallt James wrth y Cynghorwyr fod boncyff goeden dal i fod yn yr afon ar lwybr troed 3/11. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gofynnod y Cynghorwr Anne Sizmur i Gynghorwr Arnallt James os oedd hi'n gallu cael copi o'u hadroddiad, fel y gall hi fynd a'r materion i Gyfarfod nesaf Un Llais I Gymru.

2.4 Safle Glyncywarch Washery.
Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth Hugh Town ynglin a chael cyfarfod gydag Is-bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Cymuned fel y gallant drafod Safle blaenorol Glyncywarch. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.5 Cyfarfod Diogelwch y Briffordd.
Fe ddarllenodd Y Clerc ymateb a dderbyniwyd wrth Mr John McEvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar uchod. Cadarnhaodd fod gwaith ar yr arolwg yn gyfredol a fydd adroddiad yn cael ei pharatoi pam fydd yr arolwg wedi eu cwblhau. Hefyd dywedodd fod gost yr arwydd fflachio actifadu cerbydau tua £2,000 ond fydd eisiau cyflenwad pwer yn gyfagos. NODWYD y Cynghorwyr y pwyntiau uchod.

2.6 Adeilad Fictoraidd, Heol Maescware, Betws.
Dywedodd y Clerc mae hi wedi derbyn ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â rhoi gorchymyn cadwraeth ar yr uchod. Mae'r Cyngor Sir wedi dweud wrth y Clerc I gysylltu gyda CADW, fydd eisiau cynllun, lluniau o'r adeilad a rhesymau pam delai'r adeilad gael ei rhestri. Dywedodd y Cynghorwr Menna Roberts fydd hi'n cymryd lluniau o'r adeilad.

2.7 Cafnau Blodau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Arnallt James wrth y Cynghorwyr fod cennin Pedr wedi cael ei phlannu yn gafnau'r blodau gan y Cynghorwyr Carwyn James, Richard Howell a'i hun. Hefyd mae ef wedi derbyn cymorth wrth Mr Brian Lewis gyda chafn blodau ar Heol Maescware. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr i roi diolch i Mr Lewis am ei chymorth. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Arnallt James wrth y Cynghorwyr fod bylbiau cennin Pedr ar ôl. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i roi nhw wrth ymyl y gwair. Y Cynghorwyr Richard Howell a Maldwyn John i roi cymorth i'r Cynghorwr Arnallt James.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â mannau croesi ger Glyn Yr Afon, Betws.
Darllenodd y Cynghorwr Anne Sizmur ymateb a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r uchod. A dywedwyd "bwriad y Cyngor yw gosod dau fan croesi newydd tu allan i'r lleoliad uchod, fel y gall pedestraidd groesi'r ffordd gerbydau. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

3.2 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gar – Gwobr Ymwelwyr Sir Gar 2009.
•Un Llais I Gymru - Gweithio cydau'n gilydd i wella ein Cymuned - 19eg o Dachwedd 2009. Y Cynghorwyr Catherine Smith ac Annette Price i fod yn bresennol.
•Cyngor Sir Caerfyrddin - Addurniadau Tymhorol. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price fod dim ond ychydig o byst lampau o fewn Betws sy'n addas i ddal goleuadau Nadolig/tymhorol ond nid maen nhw yn y lle cywir. Mae hi wedi siarad gyda Gerwyn Thomas o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau ei fod ef yn fodlon plannu coeden ym Mharc y Betws yn barod am flwyddyn nesaf. Fu'n gost £20 troedfedd a fydd eisiau rhwng 12 ac 14 modfedd. Fydd y gost o gael golau tua £2,500. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i brynu coeden i Barc y Betws. Y Cynghorwr Annette Price i ddweud wrth Gerwyn Thomas. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price i gynnal canu carolau o amgylch y goeden tu all i Eglwys Dewi Sant a hefyd cael tartennau Nadolig. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda ficer Eglwys Dewi Sant. Y Cynghorwyr Anne Sizmur a Richard Howell i gysylltu gydag Ysgol Gynradd y Betws i weld os hoffer plant cymryd rhan.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Digwyddiadau Llawen .
•Cyngor Sir Caerfyrddin - Trolïau Siopa wedi ei adael. Dywedodd y Cynghorwr Catherine Smith fydd system troliau newydd yn Siop newydd Tesco, ac nid fydd cwsmeriaid yn gallu mynd ar droliau oddi ar y safle. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price mae yn hefyd broblemau gyda basgedu siopa.
•HOWLTA – rhoddwyd i Gynghorwr Carwyn James.
•Arolygiaeth Arolwg Cynllunio - rhoddwyd i'r Is-bwyllgor Cynllunio.
•Yr Ardd – rhoddwyd i Gynghorwr Arnallt James.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Nid oedd gan Gyngor Cymuned y Betws unrhyw wrthwynebiadau i wneud ynglyn ar isod:-
E/21839 – Amrywiad i gyflwr 2 ger Tyn y Cwm, Garnswllt (16-2009/10).
E21824 - Adeiladu bwnd gwanhad swn a gwaith minor adlinio i Heal Sun, tir ger Safle Gwaith Glo Hen y Betws (15-2009/10). Ni does gan y Cynghorwyr gwrthwynebiadau ynglyn â'r bwnd. Ond mae ganddynt wrthwynebiadau i'r maes parcio sydd wedi ymddangos ar y cynlluniad (nid oedd hyn ar y cynllun gwreiddiol). Hefyd maen nhw'n pryderu oherwydd mae

Heol Waunddwfn yn gul iawn ac nid yw'n addas i gerbydau masnachol. Mae'n heol sengl gyda dim o'n un lle i fynd heibio. Nid yw llwybr ceffylau yn gallu cael eu rhoi ar lwybr troed.

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniataid i'r ceisiai cynllunio isod:-
E/21527 – Adeiladu 4 ty, tir ger Gwaith Glo Hen y Betws (11-2009/10).
E/21142 – Ffurfiant mynediad cerbydau ger Waunherod, Betws (8-2009/10).

4.3 Newid Enw - Bryncelyn, Heol Maescware.
Roedd y Cynghorwyr yn gwrthwynebu'n gryf ynglyn â newid enw Bryncelyn, Heol Maescware i Bleu Stone, Heol Maescware, Betws.

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1. Morgan & Morgan (offer swyddfa) £73.09
Cyfanswm £73.09
PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r bil uchod.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os gall y Cyngor Cymuned edrych mewn i archebu offer swyddfa wrth gyflenwyr arall. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda chwmnïoedd offer swyddfa eraill.

Gofynnodd y Clerc os oedd y Cyngor Cymuned yn mynd i archebu plethdorch coffa blwyddyn hyn. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod y Cyngor Cymuned yn archebu dwy blethdorch coffa. Y Cynghorwr Arnallt James i archebu'r blethdorch coffa ar ran y Cyngor Cymuned. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod arwyddlun y Cyngor Cymuned yn cael ei rhoi yn ganol y blethdorch. Cytunwyd y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y Cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Fe adroddodd fod 16 troseddau yw nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Medi. Hyd yn hyn mae yna ddatgeliad cyfradd o 37.5%.

Adroddodd ar y canlynol:-
•Mae yna broblemau gyda chryts yn Treforis. Mae ef wedi siarad gyda dwy lot o rieni oherwydd bod ei phlant wedi cael eu dal ar CCTV.
•Fydd Tîm Cymdogaeth yr Heddlu i gyd yn gweithio ar Nos Galan Gaeaf.
•Sbwriel ar balmant Ffordd y Glowyr. Mae PC Kevin Jones wedi gofyn i Adran Iechyd yr Amgylchedd i ymchwilio. Gofynnodd y Cynghorwr Catherine Smith os gall scips cael ei rhoi yna yn dros dro.
•Siop Tesco Rhydaman, mae mater ynglyn â'r Swyddog Diogelwch wedi eu datrys.

Rhoddodd y Cynghorwr Catherine Smith ddiolch i PC Kevin Jones am gyfarfod PACT diddorol iawn ar y 13eg of Hydref.

Adroddodd y Cynghorwyr i PC Kevin Jones ar y canlynol:-
1.Tra oedd y Cynghorwyr yn cael Cyfarfod gyda Swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin ar y 13eg o Hydref roedd Vauxhall corsa wedi mynd yn gyflym ar hyd Heol Maescware. Rhoddwyd y Cynghorwyr manylion y car i PC Kevin Jones. Dywedodd fydd yn mynd i siarad gyda'r gyrrwr.
2.Mae yna moped yn gyrru o amgylch Betws yn gynnar yn y bore, ond mae'n swnllyd iawn.
3.Mae yna ddau dractor yn gyrru o amgylch Betws. Mae un tractor yn werdd (mae'r gyrrwr yn ddyn yn hwyr yn ei 20's) Mae'r tractor arall yn cario teithwyr. Fydd PC Kevin Jones yn edrych mewn i'r mater hyn.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd y Cynghorwr Sir Audrey Jones yn gallu fod yn bresennol yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned.

Roedd y Cynghorwr Anthony Richards yn cwyno oherwydd nid yw'r Cynghorwr Sir wedi ymateb yw llythyron fel preswyl neu fel Cynghorwr Cymuned ynglyn â materion amrywiol.

Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod Cynghorwyr Sir eraill yn paratoi adroddiadau i'w Cynghorau Cymuned. Dywedodd y Cynghorwr Catherine Smith fydd y Cyngor Cymuned yn hoffi cael adroddiadau wrth y Cynghorwr Sir. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at y Cynghorwr Sir Audrey Jones i ofyn a gall hi roi adroddiadau manwl ar faterion sy'n bwysig i Gyngor Cymuned y Betws a hefyd i Fetws, hefyd danfon copi o'r llythyr at Brif Weithredwr o Gyngor Sir Caerfyrddin. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at y Cynghorwr Sir Audrey Jones.

8. CYFATHREBIAD Y GYMUNED.
Rhoddodd y Cynghorwr Catherine Smith cyfarthrebiad draft y Gymuned i'r Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur i drafod y cyfathrebiadau yn cyfarfod mis Ebrill a Medi. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones mis Ebrill a Hydref. Cytunwyd y Cynghorwyr i drafod hyn yng Nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned ym mis Ebrill a Hydref.

Gofynnodd y Cynghorwr Richard Howell os gall y Clerc gwneud ymholiadau gydag Adran y Briffordd o Gyngor Sir Caerfyrddin i weld os gall arwydd cael ei rhoi ar y bont mewn i Fetws - Y Byd ar Fetws. Cytunwyd y Cynghorwyr.

9. ADRODDIADAU.
9.1 Cyfarfod Un Llais I Gymru.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur yn cyfarfod diwethaf Un Llais I Gymru cafwyd cyflwyniad ar ffowlio cwn. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur efallai fydd Sir Caerfyrddin yn gallu fod yn gynllun peilot am y cynllun ffowlio cwn newydd, a fu'n cymryd lle yn yr Hydref.
NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

9.2 Is-bwyllgor Cynllunio.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod yr Is-bwyllgor Cynllunio wedi cael cyfarfod gyda Mr Mathews, Swyddog yr Amgylchedd of Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am ddwr sydd efallai neu wedi cael eu llygru. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor Cymuned yn gwahodd yr Asiantaeth yr Amgylched i siarad gyda'r Cynghorwyr ar ôl Nadolig. Cytunwyd y Cynghorwyr.

9.3 Cyfarfod PACT.
Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur a'r Cynghorwr Catherine Smith wedi bod yn bresennol yn cyfarfod diweddar PACT. Adroddodd y ddau fod y cyfarfod yn ardderchog. Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ar y canlynol:
•Fydd y cyfarfod nesaf ar derfysgaeth yng Nghymru.
•Mae plant wedi rhoi gwersyll i fyny ger Parc Coetir, nid yw'r preswylwyr yn gallu gweld nhw.
•Mae rhai siopwyr yn meddwl fod disgyblion blwyddyn 11 yn dychrynu yn ystod amser cinio oherwydd ei bod nhw'n cerdded o amgylch Dref Rhydaman.

9.4 Lle Chwarae Treforis a Lle Chwarae Heol y Felin.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price nid yw hi'n gallu cael arian i wella llefydd chwarae uchod. Awgrymodd fod y Clerc yn ysgrifennu at Clare Tinkler o Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd oherwydd diffyg parc yn Treforis a Heol y Felin. Cytunwyd y

Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Clare Tinkler.

10. UNRHYW FATER ARALL.
10.1 Heol Foundry, Ammanford.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price ddelai fod croesfan sebra ar Heol Foundry. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i weld os gall croesfan sebra cael eu rhoi ar Heol Foundry. Awgrymodd y Cynghorwr Richard Howell fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin i weld os oes unrhyw gynlluniau mewn lle i roi croesfan sebra ar Heol Foundry. Cytunwyd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr at yr Adran Cynllunio a hefyd copi at Gyngor Dref Rhydaman.

10.2 Cyngor Dref Rhydaman – Arddangosfa Tân Gwyllt.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os yw Cyngor Dref Rhydaman yn cynnal arddangosfa tan wyllt blwyddyn hon. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Dref Rhydaman. Cytunwyd y Cynghorwyr.

10.3 Arian Adran 106.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwyr os maen nhw am barhau gyda rhan 2 o Barc y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at TRJ i ofyn a gallant roi gwybod i Gyngor Cymuned y Betws ynglyn ag unrhyw fater ynglyn ag arian Adran 106. Cytunwyd y Cynghorwyr.

10.4 Parc Betws – Gardd Coffa.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr nid yw'r blodau yn ardd coffa Parc y Betws wedi cael ei adnewyddu. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gerwyn Thomas.

10.5 Cloddio Cofiadwy – Gwaith Glo Hen y Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price yn siomedig oherwydd mae cloddio cofiadwy wedi cael ei rhoi i fyny ar Waith Glo Hen Y Betws, heb gysylltu gyda Chyngor Cymuned y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn danfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin i ddweud wrthyn nhw fod y Cyngor Cymuned yn siomedig bod nhw heb gael ei chysylltu ynglyn â chloddio cofiadwy. Roedd hi'n pryderu oherwydd pwy fydd yn gyfrifol a fu plentyn yn cwympo ac yn anafu hunan.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.30 y.p.